RHIFYN
ISSUE
01

# Llais Llantrisant

28.01.19



## Croeso i rifyn cyntaf 'Llais Llantrisant'

*Welcome to the first edition of 'Llais Llantrisant'*

### TALIADAU AR-LEIN
*ON-LINE PAYMENTS*

**Fel y gwyddoch, mae modd i chi dalu am giniawau ar-lein ers sbel, bellach. Canran fechan iawn o rieni sy'n manteisio ar ddefnyddio'r modd diogel yma o dalu am giniawau. Hoffem annog pob rhiant i ddefnyddio'r system hon gan nad oes modd i arian fynd ar goll rhwng y cartref a swyddfa'r ysgol! (Mae dolen ar dudalen flaen y Moodle ar eich cyfer chi). Mae'r ysgol yn gwneud ymholiadau ar hyn o bryd i fod yn 'ysgol ddi-arian' felly dewch yn gyfarwydd â'r system! Cysylltwch â swyddfa'r ysgol os hoffech dderbyn manylion talu personol eich plentyn / plant.**

*As you are aware, it has been possible to pay for school lunches on-line for quite some time now. However, a very small percentage of parents take advantage of this secure facility. We'd like to encourage all parents to use this system since it eradicates the possibility of monies going missing between home and the school office! (There is a link on the Moodle front page for your use). School is currently making enquiries into becoming a 'cash-less school' so please familiarise ourselves with this on-line payment system. Contact the school office should you require your child's / children's personal payment details.*

**01443 237837**
**admin.yggllantrisant@rctcbc.gov.uk**

### SALWCH
*ILLNESS*

**Yn unol â pholisi'r Awdurod Lleol, gofynnir i chi ffonio'r ysgol a gadael neges ar y system awtomatig i gofnodi absenoldeb plentyn. Gofynnir i rieni wneud hyn bob dydd y bydd plentyn yn dost, os gwelwch yn dda. Os na fydd yr ysgol yn derbyn neges, cewch neges destun yn gofyn i chi gysylltu â'r ysgol.**
**Os bydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr, cofiwch ddod â hi/fe at y drws rhag ofn nad oes aelod o staff wrth y ddesg. Hefyd, mae angen llofnodi plant hwyr i mewn, os gwelwch yn dda.**

*In line with Local Authority policy, you are asked to telephone school and leave a message on the automated service to report an absence. Parents are kindly asked to do this each day of an absence, please. If school does not receive a message, please expect a text message asking you to contact us.*
*Should any child arrive late, please remember to accompany them to the front door should there be no member of staff at the front desk. Also, latecomers need to be signed in, please.*

### APWYNTIADAU
*APPOINTMENTS*

**Yn unol â pholisi'r Awdurod Lleol, gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth os bydd plentyn ag apwyntiad meddygol, os gwelwch yn dda. Mae'r dystiolaeth hon yn cael ei mewnbynnu i'n systemau cofrestru ar gyfer ein Swyddog Presenoldeb a Lles pan ddaw i fonitro presenoldeb y plant.**

*In line with Local Authority policy, you are asked to provide the school office with evidence of any medical appointments, please. This evidence is entered into our resgistration system for use by our Attendance and Wellbeing Officer when she visits to monitor all children's attendance.*

### CERBYDAU
*VEHICLES*

**Hoffem atgoffa pawb ni chaniateir unrhyw gerbydau heb eu hawdurdodi i yrru trwy / parcio ym mae bysiau'r ysgol. Gofynnir yn garedig i chi sicrhau fod pob aelod o'r teulu yn derbyn y neges yma, os gwelwch yn dda, gan nad ydynt yn debygol o weld y cylchlythyr yma, efallai. Yn yr un modd, gofynnir i ymwelwyr barcio ar yr heol y tu fas i'r ysgol yn hytrach na gyrru i mewn a pharcio ym maes parcio staff yr ysgol, os gwelwch yn dda. Gofynnir hyn i sicrhau diogelwch ar safle'r ysgol. Hoffem ddiolch i bawb sy'n ein helpu eisoes trwy ddilyn y canllawiau hyn.**

*We should like to remind everyone that no unauthorised vehicles are permitted to drive through or park in the school bus bay. Please pass this message on to family members should they not see this newsletter. By the same token, visitors are asked to park on the road outside school rather than drive into and park in the staff car-park, please. We ask this to ensure safety on the school site. We should like to thank everyone who already helps us by following these requests.*

### PRESENOLDEB
*ATTENDANCE*

**Targed presenoldeb yr ysgol yw 96.0% eleni. Diolch i bawb am ein helpu i gyrraedd y darged hon.**

*The school's target this year is **96.0%** We thank everyone for helping us to achieve this.*

## DIGWYDDIADAU
## *EVENTS*

**01.02.19**
**Blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â Chastell Caerdydd**
*01.02.19*
*Year 5 and 6 visit Cardiff Castle*

**05.02.19**
**Diwrnod Diogelwch ar y We**
*05.02.19*
*Internet Safety Day*

**06.02.19**
**Yr Eisteddfod Ysgol (gofynnir i'r plant wisgo dillad yr un lliw â'u llysoedd).**
*06.02.19*
*School Eisteddfod*
*(children are asked to wear clothes the same colour as their 'houses').*

## NOSWEITHIAU AGORED
## *OPEN EVENINGS*

**Fel y gwyddoch, cynhelir nosweithiau agored y tymor hwn ar 09.04.19 a 10.04.19 Cofiwch wirio'ch manylion mewngofnodi ar gyfer y Moodle cyn i'r system apwyntiadau agor am 9:00 yb ar 11.03.19. Peidiwch â gadael hyn tan y funud olaf os gwelwch yn dda.** ☺

*As you are aware, Open Evenings will be held on 09.04.19 and 10.04.19. Remember to check that your Moodle details allow you to access your children's class pages before the booking system opens at 9:00 am on 11.03.19. Please don't leave it until the last minute!* ☺





## IONAWR IACHUS YR URDD
## *THE URDD'S HEALTHY JANUARY*

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

**Dyma ychydig o luniau o'r plant yn mwynhau'r awyr agored ar ddiwrnod lansio 'Ionawr Iachus' yr Urdd.**
*Here's just a few photographs of the children enjoying the fresh air during our launch of the Urdd's 'Healthy January'.*





## CRhA
## *PTA*

**Diolch am gefnogi gweithgareddau'r GRhA. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi holl waith y pwyllgor ac yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau (ariannol) hael pawb!**
*We thank you for supporting the PTA's activities. School greatly appreciates the committee's hard work and the generous (financial) contributions made by all!*




Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## CROESO
## *WELCOME*

**Hoffem groesawu Mr S Davies o Brifysgol Metropolitan, Caerdydd atom y tymor hwn. Bydd Mr Davies yn gweithio gyda Miss S Williams a phlant Dosbarth 8 tan fis Mehefin. Gobeithio y bydd Mr Davies yn mwynhau ei amser gyda ni.**
*We should like to welcome Mr S Davies from Cardiff Metropolitan University to school this term. Mr Davies will be working with Miss S Williams and Class 8 children until June. We hope that Mr Davies enjoys his time with us.*





## TYWYDD GARW
## *INCLEMENT WEATHER*

**Nid ydym wedi archebu eira y tymor hwn ond pwy a ŵyr beth gawn ni! Gan obeithio ni fydd angen eich ffonio chi ar hast i gau'r ysgol, oes modd i chi sicrhau fod aelod o'r teulu neu ffrind ar gael i gasglu'r plant mewn argyfwng, os gwelwch yn dda.**
*We haven't ordered any snow this term but who knows what will land on us! Although we hope that we won't have to contact you suddenly to close the school, could we ask that you arrange for a family member or friend to be on standby in an emergency, please.*

